

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 7 Ionawr 2013 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

### Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (Cadeirydd)  
Cyng. Huw Jones  
Cyng. Lyn Jones  
Cyng. Eurig Lloyd  
Mrs Hildreth Owen (Clerc)

Cyng. Auriol Williams (Is-Gadeirydd)  
Cyng. Morris Davies (gadael 8.15)  
Cyng. Des Davies  
Cyng. Haydn Lewis (Aelod lleol o'r Cyngor Sir)  
(cyrraedd 8.05)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod cyntaf 2013 a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda iddynt. Dymunodd yn dda i'r Cyng. Lyn Jones wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Aethpwyd ymlaen i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Ann Stokoe ac Islwyn Iago.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Jones bod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim
- 5. Materion yn codi:**

**Sgip ar draeth Patch:** Yn dilyn gwahoddiad oddi wrth y Cyngor mynychodd Mr Jim Marsden, cyfarwyddwr gyda Sianel Glir Afon Teifi y cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad gwybodus ganddo ynglŷn â'r sbwriel sydd yn ymgasglu ar hyd glannau'r traeth yn Patch oherwydd symudiad y llanw ddwywaith bob dydd. Roedd ganddo bryder hefyd am y sbwriel a adawyd ar y traeth gan ymwelwyr. Mae'r sgip bellach wedi ei symud ger y Clwb Cychod a sicrhodd Mr Marsden y Cyngor y gwelir gwelliant sylweddol o safbwynt sbwriel. Gofynnodd i'r Cyngor ystyried cyfrannu at gostau cynnal y sgip; cynghorwyd ef i ddanfôn cais i mewn erbyn cyfarfod mis Ebrill pan fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol.

**Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol:** Cytunwyd bod y Cadeirydd yn cwblhau'r holiadur ar ran y Cyngor.

**Prisoedd hysbysfyrdau:** Pris o £360 + TAW yr un wedi ei dderbyn oddi wrth Mr Dyfed Symmons, a hefyd pris o £120 + TAW am drwsio'r hysbysfyrdau yn Ferwig a Gwburt (**Eitem 9 [140]**). **Cafwyd gwybodaeth gan y Clerc bod grant ar gael gan y Cyngor Sir at brosiectau cyffelyb i brynu hysbysfyrdau newydd; penderfynwyd gohirio'r mater tan y flwyddyn ariannol nesaf.**

**Llwybr Troed ger Maes Carafanau Patch:** Ymddiheuriad oddi wrth Evelyn Crescent Ltd am y ffaith eu bod wedi cau'r llwybr hwn, ac yn cadarnhau y byddant yn medru mynychu cyfarfod safle yn y flwyddyn newydd (**gweler eitem 9 [132]**). **Y Clerc i drefnu cyfarfod gyda Mr Peter Lowe, y Cyng. Dilwyn Jenkins a Mr Nigel Nicholas o'r Cyngor Sir.**

**Archwilio Chwaraefan y Ferwig:** Derbyniwyd pris o £50 + TAW oddi wrth Digley Associates am archwilio chwaraefan y Ferwig. (**Eitem 9 [143]**). **Y Clerc i gadarnhau i'r cwmni bod y Cyngor yn dymuno iddynt archwilio'r chwaraefan.**
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

**I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.**

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penyparc (Wedi ei dalu)	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc (Wedi ei dalu)	£100.00
Urdd Gobaith Cymru CAB (adran 142)	

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Cynllunio

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A120837	Greenore, Tremain. "Retention of portacabin, log cabin and a touring caravan (used as showers) for business use and change of use to touring caravan site for 5 caravans, siting of 2 static caravans".	Oherwydd cymhlethdodau'r cais, teimlai'r Cyngor nad oedd yn bosib gwneud penderfyniad.
A120842	7 Brongwyn Court, Penyparc. "Proposed erection of a semi detached building as a 'hobby shed'."	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
A120863	Plot 3 Brynawel Site, Penyparc "Variation of condition 2 of planning permission A071117 – revised drawings".	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
A120864	Penffynon, Ferwig "Erection of single storey attached garage to existing bungalow".	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
A120869AV	O. C. Davies a'i Fab Cyf, Penyparc Motors – "Display of signage (illuminated and non-illuminated)"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

**Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir:** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Ionawr, 2013.

**Cais wedi ei ganiatáu / gwrthod:**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
120597	Mr & Mrs P Merryweather "Erection of replacement dwelling and garage".	Wedi ei ganiatáu.

**Cyfarfod Safle.** Ni chynhelir cyfarfod safle yn ystod y mis.

**Safle A a B yn Trecefn Ganol, Ferwig:** Gohebiaeth oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn ag apêl Mr Aled M. George yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion i gyflwyno Rhybuddion Gorfodi ar gyfer y troseddau honedig: "Heb ganiatad cynllunio, newid defnydd tir amaethyddol i ddefnydd cymysg fel tir amaethyddol a safle ar gyfer lleoli carafan (Safle B – a ellid eu defnyddio) at bwrpas storio neu defnydd preswyl."

**Nodir gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru y cynhelir Ymchwiliad Lleol i ymdrin â'r apeliadau dan sylw am 10 y.b. ar y 19/2/2013 yn Ystafell Teifi, Swyddfa Cyngor Sir Ceredigion. Nodwyd yr ohebiaeth gan y Cyngor.**

## 8. Materion Ariannol.

**Biliau wedi eu talu:**

Clwb Golff Aberteifi (Cinio Nadolig i henoed y gymuned)	101258	£230.00
Hildreth Owen (Cyflog net y Clerc, Hydref – Rhagfyr)	101259	£859.20
Hildreth Owen (Treuliau'r Clerc Hydref – Rhagfyr)	101259	£161.10
Cyllid a Thollau EM (Treth Incwm Hydref – Rhagfyr)	101260	£214.80
SWALEC (Trydan Ystafelloedd Newid Ystafell Berkley)	101261	£19.85

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Derbyniadau:** Dim

**Materion ariannol eraill:**

**Cyllideb/Praesept 2013-14.** Penderfynwyd gosod praesept o £12,800 am y flwyddyn ariannol 2013-14.

**Archwiliad Mewnol gan Gyngorydd:** Y Clerc i drefnu dyddiad gyda'r Cyng. Ann Stokoe.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 9. Gohebiaeth:

132	Evelyn Crescent Ltd	Ymateb i lythyr y Cyngor ynglŷn â chau'r llwybr yn Patch.	Gweler eitem rhif 5
133	Urdd Gobaith Cymru	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod ym mis Ebrill
134	CAB	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod ym mis Ebrill
135	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Cadarnhad o dderbyn llythyr ynglŷn â gwahanol gwynion yn ymwneud â dŵr ar y ffordd, ceubyllau a mwd ar y ffordd.	Nodwyd
136	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai)	Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Drafft: Blaenau Siopau a Ffasadau Masnachol Aberystwyth.	Dogfenni ar gael gan y Clerc.
137	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Nodwyd
138	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai)	Ffurflen i gyflwyno cais am arian i dalu 50% o'r costau i drasio llwybrau.	Y Clerc i lanw'r ffurflen a'i hanfon ymlaen i'r Cyngor Sir.
139	Mr Aerwyn Griffiths, Graig	Penillion o ddiolch am y ginio Nadolig.	Nodwyd
140	Mr Dyfed Symmons	Pris am hysbysfwrdd newydd i'w leoli ym Mhenyrc a hefyd i drwsio'r hysbysfyrddau yn Gwbert a Ferwig	Gweler eitem rhif 5
141	Llywodraeth Cymru	Gwybodaeth ynglŷn â "Cyrsiau Cymraeg Graenus"	Y Clerc i leoli un ymhob hysbysfwrdd.
142	Un Llais Cymru	Rhifyn y Gaeaf 2012/13 'Y Llais'	Copi ar gael gan y Clerc
143	Digley Associates Ltd	Pris am archwilio Chwaraefan y Ferwig	Gweler eitem rhif 5

## 10. Materion Eraill.

**Pwyllgor Rheoli Ystafell Berkley:** Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Pwyllgor Rheoli Ystafell Berkley 7 Ionawr, 2013 am 7 o'r gloch. Gofynnwyd i'r Clerc hysbysu bod y neuadd ar gael i'w hurio.

**Casgliadau Sbwriel dros Ŵyl y Nadolig:** Derbyniwyd cwyn oddi wrth Y Cyng. Ann Stokoe ynglŷn â dryswch dyddiadau casglu sbwriel. Nodwyd y dryswch gan y Cyngor.

**Sbwriel yn yr Olygfan ger Waungelod:** Derbyniwyd cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd am sbwriel wedi ei adael yn yr olygfan. Cytunwyd bod y Cyng. Lyn Jones yn archwilio'r sefyllfa.

**Chwaraefan Cae Gwyrdd:** Oherwydd bod Pwyllgor Lles Penyrc wedi dychwelyd y brydles i'r Cyngor Sir, mae yna bryder y bydd y chwaraefan yn cau. Cafwyd trafodaeth fer ar y mater a chytunwyd bod y clerch yn ysgrifennu at Glwb Ffermwyr Ifainc Penyrc gan ofyn iddynt am eu barn ynglŷn â chreu chwaraefan ger Ystafell Berkley ac ail-leoli y cyfarpar sydd mewn cyflwr da yno.

## 11. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 4 Chwefror, 2013 yn Hen Ysgol y Ferwig, am 7.30yh.

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2013

4 Mawrth (YB)    8 Ebrill (F)    13 Mai (YB) (CB)    3 Mehefin (F)    8 Gorffennaf (YB)    2 Medi (F)  
7 Hydref (YB)    4 Tachwedd (F)    2 Rhagfyr (YB)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig.    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynnyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 7 January 2013 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

### Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman)  
Cllr Huw Jones  
Cllr Lyn Jones  
Cllr Eurig Lloyd  
Mrs Hildreth Owen (Clerk)

Cllr Auriol Williams (Vice-Chairman)  
Cllr Morris Davies (left at 8.15)  
Cllr Des Davies  
Cllr Haydn Lewis (Local County Council Member)  
(arrived at 8.05pm)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the January meeting and wished all a Happy New Year. Cllr Lyn Jones was especially welcomed following his recent surgery. The Chairman duly proceeded with the agenda.
- 2. Apologies for absence:** Apologies received from Cllr Ann Stokoe and Cllr Islwyn Iago.
- 3. Minutes of the previous meeting.**  
It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Lyn Jones that the minutes of the December meeting were correct.
- 4. Declaration of personal interests:** None.
- 5. Matters arising:**
  - Skips on Patch beach:** Mr Jim Marsden, a director with Afon Teifi Fairway Ltd., gave a presentation to the Council. He mentioned his concern that the rubbish washed ashore along the banks of the river by the tides was an eyesore and that the rubbish left on the beach by visitors to the area was also a worry. Mr Marsden confirmed that the skip had been moved nearer to the Boat Club and accordingly an improvement should be seen in the level of rubbish.  
He asked the Council to consider making a contribution towards the maintenance of the skip; he was advised to submit a written application and that it would be considered at the April meeting of the Council when all such applications will be discussed.
  - Consultation on the Local Government Bill:** It was agreed that the Chairman would complete the questionnaire on behalf of the Council.
  - Notice Board Prices:** A quotation of £360+VAT per unit was received from Mr Dyfed Symmons and also a price of £120+VAT to repair the Ferwig and Gwbert notice boards (**Item 9 [140]**). **Information was received by the Clerk that the County Council might offer a grant for such investments to purchase new notice boards; it was decided to discuss the matter during the next financial year.**
  - Footpath near the Patch Caravan Park:** An apology has been received from Evelyn Crescent Ltd for the inconvenience caused due to the closure of the path; personnel from the company agreed to attend a site meeting during the new year (**see item 9 [132]**). **The Clerk was asked to organise a meeting with Mr Peter Lowe, Cllr Dilwyn Jenkins and Mr Nigel Nicholas, an officer with the County Council, to resolve the issue.**
  - Ferwig Play Area Inspection:** A price of £50+VAT has been received from Digley Associates to inspect the play area at Ferwig (**Item 9 [143]**). **The Clerk was asked to confirm with the company that an inspection be carried out.**
- 6. Requests for financial support.**  
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Penyparc School PTA	(Paid)	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc	(Paid)	£100.00
Urdd Gobaith Cymru		
<i>CAB (section 142)</i>		

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Planning

<i>App. No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Observations</i>
A120837	Greenore, Tremain. "Retention of portacabin, log cabin and a touring caravan (used as showers) for business use and change of use to touring caravan site for 5 caravans, siting of 2 static caravans".	Due to the complexity of the application, the Council feels it is unable to reach a decision.
A120842	7 Brongwyn Court, Penyparc. "Proposed erection of a semi detached building as a 'hobby shed'."	The Council has no objections.
A120863	Plot 3 Brynawel Site, Penyparc "Variation of condition 2 of planning permission A071117 – revised drawings".	The Council has no objections.
A120864	Penffynon, Ferwig "Erection of single storey attached garage to existing bungalow".	The Council has no objections.
A120869AV	O. C. Davies a'i Fab Cyf, Penyparc Motors – "Display of signage (illuminated and non-illuminated)"	The Council has no objections.

**County Council Planning Meeting :** 9 January 2013.

**Applications approved or refused by the County Council:**

<i>App. No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council Decision</i>
120597	Mr & Mrs P Merryweather "Erection of replacement dwelling and garage".	Wedi ei ganiatáu.

**Site meeting.** No site meeting was held during the month.

**Site A & B at Trecefn Ganol, Ferwig:** Correspondence from Ceredigion County Council regarding the appeal by Mr Aled M. George against the decision of Ceredigion County Council to issue Enforcement Notices for the alleged breaches: "Without planning permission, the changes of use of land from agricultural land to a mixed use of agricultural land and a caravan site for the stationing thereon of a caravan (Site B – capable of being used for) residential and storage purposes.

**The National Assembly of Wales has indicated that the Appeals are to be dealt with by means of a Local Inquiry to be held at 10.00am on 19/2/2013 at Teifi Room, Cyngor Sir Ceredigion Offices, Aberaeron. The above communication has been noted by Council.**

## 8. Financial Matters.

**Bills paid:**

Cardigan Golf Club (Senior Citizens' Christmas Dinner)	101258	£230.00
Hildreth Owen (Clerk's Net Salary, October - December)	101259	£859.20
Hildreth Owen (Clerk's Expenses, October - December)	101259	£161.10
HMRC (Income Tax October - December)	101260	£214.80
SWALEC (Electricity for Ystafell Berkley Changing Rooms)	101261	£19.85

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Des Davies that the above bills be paid.

**Receipts:** None

**Other Financial Matters:**

**Budget/Precept 2013-14:** It was agreed to set a precept of £12,800 for the financial year 2013-14.

**Internal Audit by Council Member:** The Clerk to organise with Cllr Ann Stokoe.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 9. Correspondence:

132	Evelyn Crescent Ltd	Response from the Council's letter regarding the closure of the footpath at Patch.	See item 5.
133	Urdd Gobaith Cymru	Request for financial assistance.	To be discussed in April.
134	CAB	Request for financial assistance.	To be discussed in April.
135	Ceredigion County Council (Highways)	Confirmation of receiving letter re. complaints: floods on roads, potholes and mud on highway.	Noted
136	Ceredigion County Council (Environmental Services and Housing)	Draft Supplementary Planning Guidance: Aberystwyth Shop Fronts and Commercial Facades.	Documents available with the Clerk.
137	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Ethics and Standards Committee meeting dates	Noted
138	Ceredigion County Council (Environmental Services and Housing)	Form to submit application for 50% grant for path trashing.	The Clerk to complete application and to forward to County Council
139	Mr Aerwyn Griffiths, Graig	An ode thanking the Council for the Christmas Dinner.	Noted
140	Mr Dyfed Symmons	Quotation for the supply of new notice board at Penyparc and for repairing the Gwbert and Ferwig notice boards.	See item 5.
141	Welsh Government	"Improving your Welsh" leaflets	The Clerk has posted leaflets on notice boards
142	One Voice Wales	Winter 2012/13 edition of "The Voice".	Copy available with the Clerk
143	Digley Associates Ltd	Price for the inspection of the Ferwig play area.	See item 5.

## 10. Other Matters

**The Ystafell Berkley Management Committee:** The AGM of the aforementioned Committee was held in Ystafell Berkley on 7 January 2013 at 7.00pm. The Clerk was asked to advertise the availability of the hall for hire.

**Rubbish Collection during the Christmas Holiday Period:** A complaint was received from Cllr Ann Stokoe regarding the confusion caused by the days noted for rubbish collection during the holidays. The confusion was noted by Council.

**Rubbish left at the Viewpoint near Waungelod:** A complaint was received from a member of the public that rubbish was left at the viewpoint. It was agreed that Cllr Lyn Jones would inspect the location.

**Chwaraefan Cae Gwyrdd:** As Pwyllgor Lles Penyparc had now ceased to be leaseholders of the play area, there is concern that the site might be permanently closed. A short discussion took place and the Clerk was asked to obtain the views of members of Penyparc YFC regarding relocating the play area alongside Ystafell Berkley and to move the equipment which is deemed to be in good condition to the site.

## 11. Date of next Council Meeting: 4 February 2013 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

### Council Meetings for 2013

4 March (YB)    8 April (F)    13 May (YB) (AGM)    3 June (F)    8 July (YB)    2 September (F)  
7 October (YB)    4 November (F)    2 December (YB)

*Denotes:*    F = Ferwig Old School.    YB = Ystafell Berkley.    AGM = Annual General Meeting